# Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws

**Rhagfyr 2021**

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd dros y ffôn yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sut mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles.

Dechreuodd yr arolwg ym mis Ebrill 2020 ac ar hyn o bryd mae'n gweithredu bob mis. Mae'n cynnwys set o gwestiynau arferol gyda chwestiynau eraill yn newid yn dibynnu ar faterion sy'n dod i'r amlwg.

Mae data arolwg yn cael ei haddasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd*.

Diolchwn i bobl Cymru am roi eu hamser gwerthfawr i gefnogi'r gwaith hwn.



*Oni nodir yn wahanol. Trwy gydol yr adroddiad, efallai na fydd ffigurau bob amser yn ychwanegu at 100% oherwydd talgrynnu.

# Prif ganfyddiadau

Cyfwelwyd â 512 o drigolion Cymru 18 oed a hŷn ym mis Rhagfyr 2021*.

## 12%

o bobl yn dweud eu bod yn 'poeni'n fawr' am ddal coronafeirws. Mae hyn yn cymharu â 24% yn yr arolwg diwethaf ym mis Rhagfyr 2020#

## 29%

o bobl yn dweud, dros yr wythnos ddiwethaf, eu bod wedi bod yn poeni 'llawer' am golli rhywun maen nhw'n ei garu i coronafeirws. Mae hyn yn cymharu â 57% yn yr arolwg diwethaf ym mis Rhagfyr 2020#.

## 14%

o bobl yn dweud, dros yr wythnos ddiwethaf, eu bod wedi bod yn poeni 'llawer' am eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Mae hyn yn cymharu â 24% yn yr arolwg diwethaf ym mis Rhagfyr 2020#.

## 70%

o bobl yn dweud eu bod yn defnyddio profion llif unffordd yn rheolaidd; i fyny o 55% yn y rownd arolwg ddiwethaf (27ain Medi i 4ydd Hydref 2021).

## 85%

o bobl yn cytuno â'r polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion ddangos naill ai Pàs COVID y GIG yn profi eu bod wedi'u brechu'n llawn, neu brawf llif unffordd negyddol, er mwyn mynd i sinemâu neu theatrau (66% yn cytuno'n gryf, 19% yn cytuno i raddau); roedd 15% yn anghytuno â'r polisi (8% yn anghytuno'n gryf, 7% yn anghytuno i raddau).

* Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 1af ac 20fed Rhagfyr 2021. # Wythnos arolwg 37, 14eg i 20fed Rhagfyr 2020.

# Ynglŷn â coronafeirws

| Ydych chi'n meddwl fod ganddoch neu eich bod wedi cael coronafeirws? | |
|---|---|
| Do | 23% |
| Ddim yn gwybod | 4% |

| Pa mor bryderus ydych chi y gallech gael coronafeirws? | |
|---|---|
| Dim o gwbl | 23% |
| Ychydig | 34% |
| Gymedrol | 32% |
| Hynod | 12% |


# Brechu

## Ydych chi wedi derbyn brechlyn ar gyfer coronafeirws?




*O'r cyfranogwyr oedd wedi cael dau ddos ond heb gael dos atgyfnerthu eto**


## Pe byddech chi'n cael cynnig pigiad atgyfnerthu'r brechlyn ar gyfer coronafeirws, a fyddech chi am gael un?




*Wedi cael dau ddos o'r brechlyn a dos atgyfnerthu; ni nododd unrhyw gyfranogwyr eu bod wedi cael 1 dos yn unig; # Data heb eu pwysoli.

# Sut ydym yn bihafio?

## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref neu'ch gardd?




## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref...

| | 0 diwrnod | 1-2 diwrnod | 3-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| ...i weithio | 52% | 9% | 9% | 30% |
| ...i siopa | 15% | 47% | 24% | 14% |
| ...i ymarfer corff | 39% | 19% | 16% | 27% |
| ...i gwrdd a teulu / ffrindiau | 36% | 42% | 11% | 10% |
| ...i fwyta mewn caffi, tafarn neu fwyty | 55% | 36% | 6% | 3% |
| ...i yfed mewn tafarn neu far | 69% | 24% | 6% | 1% |

# Beth ydych yn boeni amdano?

## Dros yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni chi?

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Materion iechyd eraill nad ydynt yn gysylltiedig â coronafeirws | 54% | 30% | 15% |
| Colli rhywun annwyl i'r feirws | 34% | 36% | 29% |
| Lles eich plant*#~ | 24% | 35% | 41% |
| Addysg eich plant*#~ | 19% | 31% | 50% |
| Colli'ch swydd neu fethu dod o hyd i un#~ | 76% | 14% | 10% |
| Eich materion ariannol | 61% | 26% | 12% |
| Mynd allan i fannau cyhoeddus# | 36% | 44% | 21% |
| Effeithiau Brexit | 56% | 26% | 17% |

*Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â plant sy'n byw ar yr aelwyd; #Ac eithro'r rhai a ymatebodd ddim yn berthnasol; ~Data heb ei bwysoli.


# Ansawdd bywyd

**O'i gymharu â dechrau'r llynedd, cyn sefyllfa'r coronafeirws, a fyddech chi'n dweud bod ansawdd eich bywyd wedi…?**



# Pa mor dda ydym ni'n ymdopi â choronafeirws?

## Ydych chi'n meddwl fod y cyfyngiadau sydd mewn lle i reoli coronafeirws yn…




| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac anghyutuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Credaf fod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn dda i'r problemau a achosir gan coronafeirws | 19% | 45% | 17% | 13% | 7% |
| Rwy'n hyderus y byddai'r GIG yn gallu gofalu amdanaf yn ddigonol pe bawn i'n ddifrifol wael gyda coronafeirws | 21% | 44% | 16% | 14% | 5% |

# Pas COVID GIG

**Yng Nghymru, mae'n ofynnol bellach i bobl ddangos naill ai Pàs COVID y GIG yn profi eu bod wedi'u brechu'n llawn, neu brawf llif unffordd negyddol, er mwyn mynd i sinemâu neu theatrau. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r polisi hwn?**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf | 66% |
| Cytuno rhywfaint | 19% |
| Anghytuno rhywfaint | 7% |
| Anghytuno'n gryf | 8% |

**A fydd y gofyniad i ddangos Pàs COVID y GIG neu brawf llif unffordd negyddol yn eich gwneud chi'n fwy neu'n llai tebygol o fynd i sinema neu theatr?**


| | |
|---|---|
| Fwy tebygol o fynychu | 38% |
| Llai tebygol o fynychu | 13% |
| Dim gwahaniaeth | 32% |
| Ddim am fynychu beth bynnag | 18% |

# Cyfyngiadau


**Ydych chi'n cefnogi'r gofyniad parhaus am orchuddion wyneb mewn siopau a lleoedd cyhoeddus dan do eraill yng Nghymru?**




**Ydych chi'n meddwl y byddwn ni'n gweld cyfyngiadau eraill fel pellhau cymdeithasol a chau tafarndai yn dod yn ôl yng Nghymru ar unrhyw adeg yn ystod y 6 mis nesaf?**




**Pa un o'r rhain fyddai'n eich poeni chi fwyaf?**



# Ymddygiadau amddiffynnol

**Nawr gyda rhan fwyaf o gyfyngiadau coronafeirws wedi dod i ben, pa run o rhain, os o gwbl, ydych chi'n parhau i'w gwneud?**

| | Ydw |
|---|---|
| Gwisgo gorchudd gwyneb mewn mannau dan do cyhoeddus | 93% |
| Osgoi llefydd gorlawn | 77% |
| Diheintio dwylo'n rheolaidd | 95% |
| Osgoi trafeilio dramor | 78% |
| Cynnal pellter cymdeithasol o amgylch eraill nad yn byw gyda | 82% |
| Trefnu i gwrdd a phobl mewn lleoliadau awyr agored lle bo hynny'n bosibl | 65% |
| Cadw'r nifer y bobl rwy'n cwrdd a nhw i'r lleiafswm | 79% |
| Hunan – ynysu os oes gennyf symptomau coronafeirws | 96% |
| Defnyddio prawf llif yn rheolaidd | 70% |
| Gweithio o adref* | 51% |

*Data heb ei bwysoli, ac eithro'r rhai a ymatebodd "ddim yn berthnasol"


# Blaenoriaethau polisi

**O'r rhestr yma o feysydd polisi posib, beth ddylai fod yn flaenoriaeth yn gyntaf, ail a thrydydd dros y 12 mis nesaf yn eich barn chi?**


| | Blaenoriaeth 1af | 2il flaenoriaeth | 3ydd blaenoriaeth | Wedi'i gynnwys yn y 3 prif flaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|
| Coronafeirws | 44% | 20% | 13% | 77% |
| Rhestr aros GIG | 31% | 31% | 15% | 77% |
| Iechyd meddwl | 7% | 18% | 20% | 44% |
| Addysg | 7% | 10% | 17% | 34% |
| Newid hinsawdd | 7% | 10% | 17% | 33% |
| Brexit | 2% | 7% | 10% | 19% |
| Di-weithdra | 3% | 4% | 8% | 15% |

# Edrych ymlaen

## Wrth feddwl am ddyfodol Cymru, yn eich barn chi pa un o'r tri mater hyn fyddai bwysicaf?




### O gymharu a llynedd, cyn sefyllfa coronafeirws, a fyddech yn dweud fod eich pryder ynglŷn â newid hinsawdd wedi...?



# Sut ydym yn teimlo?

## Pa mor iach ydych yn ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn iach o gwbl 10 = Iach iawn

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 4% | 34% | 63% |

## Pa mor hapus ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn hapus o gwbl 10 = Hapus iawn

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 4% | 21% | 75% |

## Pa mor bryderus ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn bryderus o gwbl 10 = Yn bryderus iawn

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 54% | 29% | 17% |

## Ar sawl diwrnod yn ystod yr wythnos diwethaf wnaethoch chi o leiaf 30 munud o weithgaredd corfforol (digon i'ch gwneud chi allan o wynt)?

| 0 diwrnod | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|
| 28% | 39% | 34% |

# Sut ydym yn teimlo?

**Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi teimlo'n…**

| | Unig | Ynysig |
|---|---|---|
| Byth | 67% | 72% |
| Weithiau | 23% | 18% |
| Yn aml | 8% | 8% |
| Wastad | 1% | 2% |

**Dros yr wythnos diwethaf i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni?**

| Eich iechyd a lles meddwl | |
|---|---|
| Dim o gwbl | 55% |
| Ychydig | 31% |
| Llawer | 14% |

# Cyhoeddwyd 7fed Ionawr 2022

## Ymholiadau

**Datblygydd yr Arolwg**

Yr Athro Mark A Bellis

**Data a Dadansoddeg**

Yr Athro Karen Hughes

**Cymorth Dadansoddol**

Natasha Judd

**E-bost**
Ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

**Ffôn**
02920 227744

**Wê**
icc.gig.cymru

**Polisi a Iechyd Rhyngwladol,
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall,
Caerdydd, CF10 4BZ

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

phwwhocc.co.uk

@phwwhocc Phwwhocc

## Sut wyt ti?

Am wybodaeth cyffredinol ar sut i edrych ar ôl eich hunan, eich ffrindiau a'ch teulu yn ystod cyfyngiadau coronafeirws ymwelwch â:

**icc.gig.cymru/sut-wyt-ti**

